



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 3 Mawrth 2015 am 6.30yh
yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 3 March 2015 at 6.30pm
at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—**Cynghorwyr/Councillors** Graham Evans (**yn y gadair/in the chair**),
John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole (*gadawodd/left at 8.00pm*), Clive Davies,
Ken Edwards, Melfydd George, Gwynfi Jenkins, Neal Jones (*gadawodd/left at 8.00pm*),
Richard Jones, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

- 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.** The Chair's Welcome and Personal Matters.
Croesawodd y Maer, y Cyng. D. Graham Evans, bawb i'r cyfarfod yn cynnwys Ms Anwen Francis, gohebydd y "Tivy-Side" am y tro cyntaf. Cyn symud ymlaen â'r agenda, cyflawnwyd y ddefod o gyflwyno Mrs Sue Lewis, cyn-olygydd y "Tivy-Side", â phlanhigyn lafant cotwm a tharian y cyngor fel cydnabyddiaeth o'i gwasanaeth yn cofnodi adroddiadau'r cyngor yn y wasg leol yn gymen dros y blynyddoedd diwethaf. Cyfeiriodd y Maer eto at anhwylder y Cyng. Llwyd Edwards sydd yn dal yn yr ysbyty yn Glangwili. Llongyfarchodd y Cyng. Jane Roche ar lwyddiant y Noson Ieuencid a gynhaliwyd ar 17 Chwefror yn Neuadd y Dref, a diolchodd i'r Cyng. Neal Jones am gynhyrchu'r tystysgrifau yn rhad ac am ddim i'r achlysur hwnnw. Dymunodd yn dda i Mrs Hildreth Owen, cymar y clerc, sydd yn dal yn anhwylyd yn dilyn damwain ar y rhew.

The Mayor, Cllr D. Graham Evans, welcomed everyone to the meeting including Ms Anwen Francis, the "Tivy-Side" reporter attending her first council meeting. Before proceeding with the evening's agenda, the Mayor presented Mrs Sue Lewis, past editor of the "Tivy-Side", with a lavender plant and a council shield as an acknowledgment of her sound reporting of council matters over many years. The Mayor referred to the long-term absence of Cllr Llwyd Edwards who is still in Glangwili Hospital; the best wishes of the council accompanied his concern. Cllr Jane Roche was congratulated on the success of the Youth Presentation Evening at the Guildhall on 17 February; gratitude was extended to Cllr Neal Jones for producing the certificates free of charge. The Mayor also wished the clerk's partner, Mrs Hildreth Owen, a swift recovery from her recent fall on the ice.

- 2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng./Cllrs Llwyd Edwards (*yn yr ysbyty/in hospital*).
- 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Phersonol gan Gynghorwyr.**
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.
- 4. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Chwefror.**
Confirmation of Minutes of 3 February Council Meeting.
Wedi i ddyddiad y cofnodion ei gywiro o 2il Chwefror i'r 3ydd, cynigiodd y Cyng. Jane Roche bod y cofnodion yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Neal Jones.
After correcting the date of the minutes from the 2nd of February to the 3rd, the minutes were proposed as correct by Cllr Jane Roche and seconded by Cllr Neal Jones.
- 5. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cyngor 3 Chwefror (Mewn pwyllgor).**
Confirmation of Minutes of 3 February Council Meeting (In committee).
Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod cofnodion mewn pwyllgor 3 Chwefror yn gywir.
Cllr Mark Cole proposed that the in committee minutes of 3 February were correct; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Tud. 952, eitem 1: Cytunwyd gwahodd Mrs Julie Pritchard ("Newid Cam" – mudiad i gynorthwyo milwyr i integreiddio yn ôl i'r gymuned) i annerch y cyngor ar 7 Ebrill.

Tud. 953, eitem 7 (Bydd naill ai Mr Steve Moore (Prif Weithredwr) neu Mrs Bernardine Rees (Cadeirydd) Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, yn mynychu cyfarfod misol y cyngor ar 5 Mai.

Tud. 953, eitem 8 (Cadwgan): Dywedodd y Cyng. Mark Cole bod y staff yn dychwelyd i'r castell gan ailafael ar eu cyfrifoldeb ar 4 Mawrth. Bydd sieff newydd, Mr Nigel Couzens, yn dechrau ar ei swydd, ac mae garddwr a swyddog cyllid wedi eu hapwyntio. Mae'r trefniadau yn mynd yn eu blaen i gynnal agoriad i'r gymuned leol ar 14 Ebrill gyda'r Tad Seamus Cunnane a'r Cyng. Gwynfi Jenkins, sef arweinwyr gwreiddiol yr ymdrechion, yn cyflawni'r ddefod o agor y castell.

Tud. 956, eitem 12 [239]: Cadarnhaodd y Cyng. Catrin Miles bod y ffurflen yn cofnodi gwaith ar y bandstand wedi ei dychwelyd.

Tud. 956, eitem 12 [241]: Bu Ms Claire Goodman, Swyddog Hawliau Tramwy (Map Diffiniol) y cyngor sir, yn y swyddfa ddydd Iau, 26 Chwefror yn archwilio cofnodion y cyngor o'r flwyddyn 1979 hyd yn bresennol i hel gwybodaeth am lwybrau cyhoeddus sydd yn y dref. Oherwydd prinder amser, aeth Ms Goodman â nifer o'r ffeiliau nôl i'w swyddfa ym Mhenmorfa er mwyn parhau â'r archwiliad.

Tud. 956, eitem 12 [242]: Nid yw'r posteri yn dynodi dyddiadau'r llifogydd uchel wedi eu gosod eto. Ychwanegodd y clerc bod y dyddiadau wedi eu gwyntyllu ar hysbysfyrdau'r cyngor ger yr afon yng Nghilfach Penbont.

Tud. 958, eitem 16. Cadarnhaodd y Cyng. Adams-Lewis mai yn yr Eglwys Gatholig y cynhelir gwasanaeth Dydd y Lluoedd Arfog at 27 Mehefin.

Tud. 960, eitem 6 (mewn pwyllgor): Mae holl daliadau Cronfa'r Llifogydd wedi eu talu erbyn hyn, ac mae cyfrifoldeb y cyngor ar ben. Diolchwyd i Weithgor y Llifogydd am eu gwaith yn dosbarthu'r arian yn deg a chywir i ddiodefwyr y llifogydd.

Page 953, item 1: It was agreed to invite Mrs Julie Pritchard, "Change Step" – a movement to assist service men to integrate back into the community after serving their country – to address the council at the 7 April meeting.

Page 953, item 8 (Cadwgan): Cllr Mark Cole stated that the staff would be returning to their offices in the castle on 4 March. A new chef, Mr Nigel Couzens, will begin his work in the restaurant, and a gardener and a financial officer have been appointed. Plans are moving ahead to open the castle to the local community on 14 April; Father Seamus Cunnane and Cllr Gwynfi Jenkins, two of the original leaders, have been invited to open the castle.

Page 953, item 7: Mr Steve Moore (Chief Executive) or Mrs Bernardine Rees (Chair) of the Hywel Dda University Health Board will address the council at the 5 May monthly meeting.

Page 956, item 12 [241]: Ms Claire Goodman, Public Rights of Way Definitive Map Officer, CCC, is undergoing a thorough investigation concerning the footpath in Bro Teifi and visited the clerk's office to inspect the council minutes dating from 1979. Due to the limitation on her time schedule, Miss Goodman has taken the files to her office in Aberaeron for further scrutiny.

Page 956, item 12 [242]: The posters depicting the high tide times have not been placed in the Quay Street car park. The clerk added that he had highlighted the information on notices in the Cilfach Penbont notice boards.

Page 958, item 16: Cllr Adams-Lewis confirmed that the Armed Forces Day service would be held in the Catholic Church on 27 June.

Page 960, item 6 (in committee): All donations have now been paid from the Flood Fund; the council's responsibility, therefore, has ended. The Working Committee was thanked for making wise decisions in distributing the money fairly to all flood victims.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd dyddiadur y Maer am Chwefror a Mawrth i'r aelodau yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary for February and March was distributed to members at the meeting.

8. Cynllunio / Planning.

Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

<i>Rhif y Cais / App. No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Penderfyniad / Decision</i>
A140827	3/4 St Mary Street	Change of use from retail D1 non-residential Education and Training Centre for 3/4 St Mary Street. The premises are currently empty.	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (2)

9. Biliau wedi eu talu / Bills paid.

<i>Dyddiad / Date</i>	<i>Disgrifiad / Description</i>	<i>Côd / Code</i>	<i>Rhif y Siec / Cheque No.</i>	<i>Swm (TAW) / Sum (VAT)</i>
1/2/15	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa/Rent of Office</i>	A7	D/D	£238.33 (0.00)
3/2/15	<i>Dwy siec wedi eu talu i gau'r gronfa llifogydd.</i> Two cheques paid to finalise the flood account.	C16	4071 4072	£200.00 (0.00) £342.27 (0.00)
17/2/15	Courtstall: <i>2 rhwyd i'r cwrt tenis / two tennis court nets</i>	C4	4073	£252.00 (42.00)
17/2/15	Siop Hamdden Teifi Sports: <i>Talebau.</i> Tokens for Youth presentation evening, 17/2/15	C11	4074	£60.00 (0.00)
28/2/15	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd.</i> Simultaneous translation (3/2/15)	A17	4075	£98.40 (16.40)
3/3/15	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Papur swyddfa/amlenni/Office stationery.</i> <i>Posterï Nadolig (Carden ffyddlondeb).</i> <i>Christmas posters (Loyalty cards)</i>	A5 D6	4076	£62.40 (10.40) £69.60 (11.60)
1/3/15	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc/Clerk's Salary</i> (<i>Chwefror/February</i>)	A3	4077	£748.88 (0.00)
17/2/15	Menter Aberteifi: <i>Hurio ystafell / Hire of room for youth presentation evening (17/2/15)</i>	C11	4078	£41.00 (0.00)
23/2/15	David Evans & Sons: <i>Ysgythru Tarian a thlws y Cyn-Faer/ Engraving shield (Mrs Sue Lewis) and Past Mayor medallion.</i>	B5	4079	£19.60 (3.27)
4/2/15	Zurich: <i>Yswiriant y goleuadau Nadolig.</i> Insurance of Christmas lights.	A9	4080	£140.28 (0.00)
23/2/15	Caffi Finch Square Café: <i>Stampiau / Stamps</i>	A6	4081	£63.60 (0.00)
29/1/15	Telemat: <i>Cofrestru enw parth trefaberteifi.cymru a throsglwyddo'r ebyst/ Registering email address and transfer of emails.</i> <i>Gwasanaeth Band Lydan Uwchgyflym.</i> Broadband Service: 12 months @ £20 per month	A19	4082	£47.40 (7.90) £288.00 (48.00)
10/2/15	Midshire: <i>Llungopïo / Photocopying and warranty charge</i>	A16	4083	£55.49 (9.25)
28/2/15	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd.</i> Rent of Conference Room (3/2/15, 17/2/15)	A7	4084	£60.00 (10.00)
28/2/15	<i>Bachan Deche / Handyperson</i> (<i>Chwefror/February</i>)	A18	4085	£151.20 (25.20)

Cynigiodd y Cyng. Ken Edwards bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Mark Cole.

Cllr Ken Edwards proposed that the above bills be paid; this was seconded by Cllr Mark Cole.

Derbyniadau/Receipts: 30/1/15 *Prydles / Cardigan RFC lease* £650.00
9/1/15 *Llog y Banc/Bank Interest* £2.74

10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Maes parcio Gloster Row:** Bu'r Cyng. Miles yn weithredol i alw i mewn y penderfyniad ar gostau maes parcio Gloster Row. Cytunwyd cyfaddawdu gan godi pris ar docyn dydd neu wythnos gyda thocyn chwe mis neu flwyddyn yn aros yr un pris. Mae'r awdurdod wedi rhannu'r sir i mewn i barthau: (1) Aberystwyth, (2) Aberteifi, Llanbedr Pont Steffan ac Aberaeron, (3) Tregaron a Llandysul. Caiff y sefyllfa ei drafod yn y dyfodol mewn gweithgor arbennig i'w sefydlu'n fuan.
- (ii) **Strand:** Mae cwestiwn am berchnogaeth y Strand yn dal i fod yn broblem. Cynhelir cyfarfod gyda swyddogion y cyngor sir ynglŷn â'r mater yn fuan. Mae'r darn ger yr afon yn eiddo i Lywodraeth Cymru. Y ffordd ymlaen byddai trefnu prydles hir-dymor oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru gynlluniau am yr ardal hefyd. Edrychir ymlaen i dacluso'r darn cyn yr haf, yn enwedig gan fod Castell Aberteifi ar fin agor ei ddrysau i'r cyhoedd ym mis Ebrill.
- (iii) **Maer gwaith ar sgwâr yr Heol Fawr** yn mynd yn ei flaen yn hwylus; gobeithir gorffen y gwaith o fewn y pythefnos a glustnodir os deil y tywydd yn ffafriol.
- (iv) **Pentop:** Da oedd deall bod Grant Cymunedol o £12,212 tuag at waith ar gae Pentop wedi ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol 2015-16. Bydd Is-Bwyllgor "Maes Chwarae Pentop Play Area" yn cyfarfod ar y safle cyn hir gyda'r gwaith yn dechrau oddeutu'r Pasg.

(b) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) **Bro Teifi:** Mae'r cais i ailagor y llwybr ym Mro Teifi yn parhau gyda Ms Claire Goodman yn parhau â'r gwaith angenrheidiol. Cafwyd cyfarfod gyda Mr Llŷr Edwards, Tai Ceredigion, sydd bellach yn ymwybodol o'r cais. Gobeithir y bydd yn ailagor yn yr hydref wedi i'r ddwy uned i'r anabl sydd gerllaw eu cwblhau.
- (ii) **Maer Gweithgor Gwario Cyfalaf** yn cofnodi y caiff y ganolfan ddydd yn Yr Hafod ei chau tra bo'r gwaith yno yn mynd yn ei flaen gan nad oes safle cyfleus ar gael i'r defnyddwyr. Mae darpariaeth Canolfan Ddydd ar gael yn Awel Deg, Llandysul dros dro.
- (iii) **Ceredigion Actif:** Mae gwahoddiad wedi ei estyn i fudiadau enwebu hyfforddwr i sefyll am Wobr Hyfforddwr y Flwyddyn. Gellir cysylltu â Mr Steven Jones, Rheolwr Cymunedau Gweithredol Cyngor Sir Ceredigion ar 01970 633587.

(c) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) **Maer llanast yn parhau ar safle Tai Ceredigion yn Rhos-y-dre** sydd yn deillio o'r cwmni yn anwybyddu cyngor lleol ynglŷn â'r tir a'r amgylchedd.
- (ii) **Toiledau:** Roedd y Cyng. Adams-Lewis wedi siarad â Mr Paul Arnold ynghylch toiledau Aberteifi. Awgrymodd ef y gellir paratoi prydles am 20, 25 neu 40 mlynedd ar rent rhad o £1 y flwyddyn. Roedd hefyd yn barod i gyngor y dref gymryd cyfrifoldeb am y chwe safle o doiledau cyhoeddus sydd yn y dref.
- (iii) **Cysgodfeydd Bysiau:** Roedd y cyngor sir wedi dweud mai'r gysgodfan ar Sgwâr Finch yn unig yr oeddynt yn gyfrifol amdani. Roedd yr aelodau yn amheus am hyn a chytunwyd bod y Cyng. Adams-Lewis yn ailymchwilio gyda'r cyngor sir. Gwirfoddolodd y Cyng. Neal Jones ymdrechu i lanhau cysgodfan Pendre.

(a) Cllr Catrin Miles:

- (i) **Gloster Row car park:** Cllr Miles was instrumental in calling in the decision regarding the parking charges at the Gloster Row car park. It was agreed to offer a compromise by increasing the daily and weekly cost with the six-monthly or annual tariff to remain as present. The authority has sectioned the county into three zones: (1) Aberystwyth, (2) Cardigan, Lampeter and Aberaeron, (3) Tregaron and Llandysul. The issue will be discussed in the near future with a specially-formed working group.
- (ii) **Strand:** The question of the Strand ownership remains unresolved. A meeting will be held with officers of the county council soon to move the issue forward. The section of land alongside the river remains the property of the Welsh Government; a way ahead would be obtaining a long-term lease from Ceredigion County Council. Natural Resources Wales also have plans for the area. It is earnestly hoped that the area will be refurbished by the summer, especially as Cardigan Castle will be open to the public from April.

- (iii) The roadworks in the High Street are moving ahead smoothly and, if the weather prevails, it is expected that the work will be finished before the two weeks scheduled for completion.
- (iv) Pentop: It is understood that the Community Grant of £12,212 awarded to the work at the Pentop play area will be carried forward to the next financial year, 2015-16. The Subcommittee "Maes Chwarae Pentop Play Area" will meet on site very soon with the ground work expected to commence around Easter.

(b) Cllr Mark Cole:

- (i) Bro Teifi: The application to re-open the Bro Teifi pathway is continuing under the guidance of Ms Claire Goodman. A meeting was held with Mr Llŷr Edwards, Tai Ceredigion, who is now aware of the application. It is hoped that the path will be open in the autumn as soon as the two disabled units are completed.
- (ii) The Capital Expenditure Working Group has announced that the day centre at Yr Hafod will be closed whilst the work is proceeding, as no other appropriate site has been made available to the users. The Day Centre at Awel Deg, Llandysul has the necessary amenities if required.
- (iii) Ceredigion Actif: An invitation has been extended to local recreational and sporting coaches to compete for the Coach of the Year Award. Application forms may be obtained from Mr Steven Jones, Active Communities Manager, Ceredigion County Council on 01970 633587.

(c) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis is concerned at the state of the site developed by Tai Ceredigion at Rhos-y-dre which has resulted due to the company ignoring local advice regarding the site and environment.
- (ii) Toilets: Cllr Adams-Lewis has discussed the Cardigan conveniences with Mr Paul Arnold who suggested that a peppercorn rent of £1 per annum for 20, 25 or 40 years could be agreed. Mr Arnold was prepared for Cardigan Town Council to take full responsibility for all six toilet blocks in the town.
- (iii) Bus shelters: The county council has stated that the Finch Square shelter only was owned by the higher authority. Members were sceptical of this disclosure and it was agreed that Cllr Adams-Lewis makes further enquiries with the county council. Cllr Neal Jones volunteered to clean the Pendre shelter.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
255	CSC/CCC: (Allan Lewis): <i>Ymgynghori ynghylch Canllaw Cynllunio Atodol Drafft Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Ceredigion: "Y Gymuned a'r Gymraeg"</i> . Ceredigion Local Development Plan Draft Supplementary Planning Guidance (SPG) Consultation: <u>"Community and the Welsh Language"</u> .	<i>Sylwadau i'w hanfon erbyn 8/4/15 i ldp@ceredigion.gov.uk.</i> Ffurflen ar lein: www.ceredigion.gov.uk/ldp . Observations to be sent by 8/4/15 to the above email. Form on-line: www.ceredigion.gov.uk/ldp . <i>Cytunwyd bod y tri chynghorydd sir yn llanw'r holiadur ar ran cyngor y dref.</i> It was agreed that the three county councillors would complete the questionnaire on behalf of the town council.
256	CSC/CCC: (Paul Arnold): <i>Man chwarae Netpwl/Netpool</i> play area: Information regarding Equality Impact Assessment.	<i>Disgwylir i'r asesiad gael ei gyflawni gan swyddogion RAY Ceredigion.</i> It is expected that the staff of RAY Ceredigion will complete the assessment.
257	CSC/CCC: (Paul Arnold): <i>Trosglwyddo prydles y toiledau/Transfer of public conveniences lease</i>	<i>Awgrymodd Mr Paul Arnold y gellir trosglwyddo'r brydles gan CSC am y toiledau yn gyfangwbl neu ar les hir dymor.</i> Suggestion by Paul Arnold that the lease could be transferred by CCC outright or long term.
258	CSC/CCC: (Keith Morgan): <i>Cau'r ffordd i barêd Sadwrn Barlys.</i> Closure of highway for the Barley Saturday Stallion parade, 25/4/15, 1.30-4.00pm	<i>Nodwyd.</i> Noted.
259	CSC/CCC (Keith Morgan): <i>Goleuadau Stryd y Cei.</i> Quay Street Lighting	<i>Nodwyd.</i> Noted.

260	<i>Llywodraeth Cymru: Cydnabyddiaeth am lythyr y cyngor ynghylch 40mya y ffordd osgoi A487.</i> Welsh Government: Acknowledgment of council letter regarding the 40mph restriction on the A487 bypass.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
261	<i>Antur Teifi: Uwch-gynhadledd Dyfodol y Stryd Fawr, 25 a 26 Mawrth, Prifysgol Nottingham Trent.</i> Future High Street Summit, 25/25 March, Nottingham Trent University.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr, 24/2/15.</i> Forwarded to members on 24/2/15. <i>Disgwylir i'r Cyng. Clive Davies ateb yn ôl i'r cyngor.</i> Cllr Clive Davies will report back to council.
262	<i>Cantref: Ann Harris (Swyddog Llety a Chymorth) yn cynnig rhoi cyflwyniad i'r cyngor ar "Gwasanaeth Pobl Hŷn".</i> Ann Harris (Supported Housing Officer) offers to give a short presentation on "Older People Service"	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr, 24/2/15.</i> Forwarded to members on 24/2/15.
263	<i>Polycote UK: Prisoedd am gynnal a chadw'r maes sgrialu.</i> Quotations for the maintenance of the skateboard park.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
264	<i>Cyfoeth Naturiol Cymru: Digwyddiad galw-heibio i drafod Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig.</i> Natural Resources Wales: A drop-in event to identify new Special Areas of Conservation and Special Protection Areas (Canolfan Halliwell Centre, Caerfyrddin, 23/2/15)	<i>Am ragor o wybodaeth/ For further information:</i> http://venuewales.co.uk/halliwell-centre-carmarthen
265	<i>Merched y Wawr Cylch Teifi: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu Oedfa Gŵyl Ddewi'r Tair Cymdeithas Gymraeg, nos Sul, 1 Mawrth am 6.00yh yng Nghapel Mair.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the St Davids Day Service at Capel Mair, 1/3/15, 6.00pm	<i>Mae'r Maer a'r Faeres wedi derbyn y gwahoddiad i fynychu'r gwasanaeth</i> The Mayor and Mayoress have accepted the invitation to attend the service.
266	<i>Canolfan Plant Jig-So Children's Service: Gwahoddiad i'r Maer a'r Faeres fynychu'r lawnsiad arddangosfa o ddarluniau yn dathlu Hawliau Plant, Maes Mwldan, 27/2/15, 11.00am.</i> Invitation to the Mayor and Mayoress to attend the launch of a picture exhibition to celebrate the Rights of Children, at Maes Mwldan on 27/2/15 at 11.00am.	<i>Mae'r Maer a'r Faeres wedi derbyn y gwahoddiad i fynychu'r arddangosfa.</i> The Mayor and Mayoress have accepted the invitation to attend the exhibition.
267	<i>Mr Guto Jones, Sarnau: Llythyr yn cynnig gwasanaeth cyfieithu.</i> Letter offering translating service.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
268	<i>Bwrdd Iechyd Hywel Dda: Mrs Bernardine Rees (Cadeirydd) a Mr Steve Moore (Prif Weithredwr) yn derbyn gwahoddiad y cyngor i gynnig cyflwyniad ar 5 Mai.</i> Hywel Dda Health Board: Mrs Bernardine Rees (Chairperson) and Mr Steve Moore (Chief Executive) have accepted the council's invitation to address members on 5 May..	<i>Mae'r clerc wedi trafod a chynnig 5 Mai fel dyddiad addas i Mrs Rees.</i> The clerk has discussed the offer and has suggested the 5 May as a suitable date for Mrs Rees' presentation.
269	<i>Menter Aberteifi: Cais am lythyr o gefnogaeth i'r Wyl Afon a Bwyd.</i> Application requesting a letter of support for the River and Food Festival on 8/8/15.	<i>Mae'r clerc wedi anfon llythyr o gefnogaeth.</i> <i>The clerk has forwarded a letter of support.</i>
270	<i>Menter Aberteifi (GŵylAfon a Bwyd/River & Food Festival): Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
271	<i>Menter Aberteifi: Problemau gyda cholomennod.</i> Problems with pigeons.	<i>Cytunwyd anfon copi o'r llythyr ymlaen at Mr Huw Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Ffordd o Fyw.</i> It was agreed to forward a copy of the letter to Mr Huw Williams, Head of Lifestyle Services, CCC.
272	<i>Ysgol Uwchradd Aberteifi: Gwahoddiad i'r Noson Wobrwyo, 25/3/15.</i> Invitation to the Prize Evening	<i>Copi wedi ei gyflwyno i'r Maer.</i> Copy forwarded to the Mayor.
273	<i>Corfflu Cadetiaid y Fyddin (Dyfed a Morgannwg) / G (Welsh Guards) Company Dyfed and Glamorgan Army Cadet Force. Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
274	<i>Gofal Mewn Galar/Cruse Bereavement Care: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
275	<i>Gŵyl Fawr Aberteifi: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
276	<i>Theatr Gydweithiol Troedyrhiw: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.
277	<i>Pwll Nofio Aberteifi: Cardigan Memorial Pool & Hall: Cais am gymorth ariannol.</i> Application for financial aid.	<i>I'w drafod yn Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Ebrill.</i> To be discussed at the April Grants Sub-committee.

278	<i>Sefydliad Aren Cymru/Kidney Wales Foundation: Walk for Life 2015, 26/4/15</i>	<i>Bydd y Maer a'r Faeres yn cynrychioli'r cyngor ar y daith.</i> The Mayor and Mayoress will represent the council on the walk.
279	<i>Diweddariad o ddatganiad prydles y Clwb Rygbi.</i> Update of Cardigan RFC lease statement	<i>Nodwyd.</i> Noted.
280	<i>CSC/CCC (Keith Morgan): Diwrnodau Hwyl Ailgylchu: Neuadd Bentref Llechryd Village Hall (8/3/15), Ystafell Berkley, Penyparc (22/3/15), 10.00am-4.00pm. Recycling Fun Days</i>	<i>Poster i wedi eu harddangos ar yr hysbysfyrddau.</i> Posters displayed on the notice boards.
281	<i>W. J. Williams & Davies: Request by Mr John Dyer for the council to review the formal report prepared by Morgan & Davies regarding the requirements of the 1998 Scheme of the Charity Commissioner and Section 36 of the Charities Act 1993 have been complied with.</i>	<i>Copïau i'w paratoi i aelodau'r gweithgor.</i> Copies to be supplied to members of the working group (Mayor, Mayoress, Deputy Mayor and Clerk). Meeting will be held on 12 March at 11.00am in the clerk's office.
282	<i>Bachan Deche: Adroddiad mis Chwefror.</i> Handyperson's February report.	<i>I'w drafod tan eitem 15.</i> To be discussed under item 15.

Allan Lewis: *Pennaeth y Gwasanaethau Datblygu Economaidd a Chymunedol.*
Head of Economic and Community Development Services.

Keith Morgan: *Pennaeth Asedau a Gwasanaethau Trafnidiaeth.*
Head of Assets and Transportation Services

Paul Arnold: *Pennaeth y Gwasanaethau Bwrdeistrefol ac Amgylcheddol.*
Head of Municipal and Environmental Service

12. Toiledau Cyhoeddus / Public Conveniences

Mae'r trafodaethau gyda swyddogion cwmni Danfo yn mynd yn eu blaen.

Negotiations with officers from the Danfo company are on-going.

13. Ymgynghoriad ar ddyfodol darpariaeth Cartrefi Preswyl Cyngor Sir Ceredigion.

Consultation on the future provision of Ceredigion County Council Residential Care Homes.

Gan fod dyddiad cau dychwelyd yr holiadur wedi ei symud ymlaen i 30 Ebrill, cytunwyd bod yr aelodau yn anfon eu sylwadau i'r clerwr erbyn yr is-bwyllgorau ar 17 Mawrth.

As the closing date for returning the questionnaire has been extended to 30 April, it was agreed that members forward their observations to the clerk to be discussed at the 17 March sub-committees.

14. (a) Ethol Maer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2015-16.

Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Melfydd George bod y Dirprwy-Faer, y Cyng. John Adams-Lewis, i'w ethol yn Faer-Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2015-16. Roedd y cyngor yn unfrydol.

(a) Election of Cardigan Town Council Mayor-Elect for 2015-16.

It was proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr Melfydd George that the Deputy Mayor, Cllr John Adams-Lewis, be elected Cardigan Town Council Mayor-Elect for the year 2015-16.

Members were unanimous in their decision.

(b) **Ethol Dirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am 2015-16.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Gwynfi Jenkins ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y Cyng. Clive Davies i'w ethol yn Ddirprwy-Faer Etholedig Cyngor Tref Aberteifi am y flwyddyn 2015-16. Roedd y cyngor yn unfrydol.

(b) Election of Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for 2015-16.

Cllr Gwynfi Jenkins proposed that Cllr Clive Davies be elected Cardigan Town Council Deputy Mayor-Elect for the year 2015-16. This was seconded by Cllr Dai Brabrook. Members were unanimous in their decision.

15. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgorau 17 Chwefror.

Confirmation of 17 February Sub-committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis ac eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook bod y cofnodion yn gywir.

It was proposed by Cllr John Adams-Lewis and seconded by Cllr Dai Brabrook that the minutes were correct.

Materion yn codi Matters arising

Tud. 962 (Hamdden): Cadarnhaodd y clerc bod y ddwy rhwyd tenis wedi cyrraedd a chânt eu gosod gan y Bachan Deche yn fuan.

Tud. 962 (Cyfarfod y Cartrefi Gofal yn Sarnau): Derbyniodd y Cyng. Jane Roche gwynion am nad oedd y cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod "galw heibio" yn Neuadd y Dref cyn bo hir.

Page 962 (*Recreation*): The clerk confirmed that the two tennis nets had arrived and that the Handyperson will place them soon.

Page 963 (*Residential Care Homes meeting at Sarnau*): Cllr Jane Roche mentioned that she had received numerous complaints that the meeting had not been open to the public. It was confirmed that a "drop in" event would be held in the Guildhall soon.

Adroddiad y Bachan Deche:

Cafwyd neges ar lafar oddi wrth y Bachan Deche yn cadarnhau bod baner newydd y Ddraig Goch yn cael ei haddasu gan gwmni Thematex cyn ei gosod ar Neuadd y Dref; caiff y gwaith ei gwblhau yn fuan.

Handyperson's Report:

The Handyperson informed the clerk that the new Red Dragon flag was being modified by Thematex before being placed on the Guildhall.

Cae Chwarae Maes Radley Playing Field:

Dywedodd y Cyng. Catrin Miles bod trigolion sy'n byw ar draws yr afon ar Ffordd Llandudoch yn cwyno am y goleuadau llachar sy'n disgleirio o'r llifoleuadau ym Maes Radley. Ychwanegodd y byddai'n siarad â swyddogion y clwb rygbi ynghylch â'r gwyn.

Cllr Catrin Miles stated that she had received complaints from residents on the St Dogmaels Road that the floodlights on the Maes Radley field were dazzling and disconcerting. She added that she would speak to officers of the rugby club regarding the problem.

16. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the discretion of the Mayor.

- (a) **Penodi dyddiad i'r Is-bwyllgor Rhoddion. Cynhelir y cyfarfod ar nos Fawrth, 10 Mawrth am 6.00 o'r gloch yn swyddfa'r clerc.**

Confirm date for Grants Sub-committee. The meeting will be held on Tuesday, 10 March at 6.00pm in the clerk's office.

- (b) **Dywedodd y Cyng. Miles bod bwrdd y Pwll Nofio wedi gwneud cais am Grant Cymunedol oddi wrth y cyngor sir.**

Cllr Miles stated that the Swimming Pool committee had made an application for funding from the county council's Community Grant scheme.

- (c) **Cynhelir bore coffi gan elusen Parkinson's UK yng Ngorffwysfa'r Pysgotwr, fore Gwener, 6 Mawrth o 9.30-12.30yp**

A coffee morning for the benefit of Parkinson's UK will be held at the Fisherman's Rest on Friday, 6 March from 9.30-12.30pm

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.20yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.20pm.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date